

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>Adroddiad i'r:</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	14eg Chwefror 2023
<b>Teitl:</b>	Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	Rhoi gwybod am y strategaeth newydd ar gyfer ysgolion i helpu pobl ifanc sy'n wynebu amddifadedd.
<b>Er:</b>	Penderfyniad
<b>Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:</b>	Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Mae cefnogi dysgwyr difreintiedig yn hollbwysig ar gyfer cael tegwch mewn addysg. Heb gefnogaeth effeithiol, mae dysgwyr difreintiedig yn cael eu heffeithio'n anghyfartal o gymharu â'u cyfoedion.

Mae data deilliannau TGAU yn dangos y bwlch presennol o ran cyrhaeddiad. Yn ôl y data yng Nghymru, cyn y pandemig roedd y bwlch anfantais yn gyfystyr â thua 22-23 mis o gynnydd addysgol yn 2019, dim ond ychydig yn is na'r 24 mis yn 2011. Ar ben hynny, roedd y bwlch anfantais parhaus (hynny yw, disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim am 80% o'u hamser yn yr ysgol) yn gyfystyr â thua 29 mis o gynnydd addysgol yn 2019, sydd hefyd heb newid o'r lefel a gafwyd yn 2011. Dim ond 4% o ddisgyblion sydd o dan anfantais parhaus yng Nghymru a gyrhaeddodd y cwintel uchaf ar gyfer sgoriau TGAU yn 2019.

Mae'r Gweinidog Addysg presennol, Jeremy Miles, wedi siarad yn gyson am ei ymrwymiad i gefnogi disgyblion bregus a difreintiedig:

- “Mae taclo effaith tlodi ar gyrhaeddiad wrth wraidd cenhadaeth ein cenedl ym maes addysg.”
- “Fe wyddom ni o dystiolaeth ymchwil ac arolygu mai ysgolion sy'n cyplysu dysgu ac addysgu mewn ffordd effeithiol gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned yw'r rhai mwyaf effeithiol o ran goresgyn effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Felly, fe fyddwn ni'n awyddus i weld ysgolion yn gweithredu fel ysgolion bro, gan ymestyn allan at rieni a gofalwyr ac ymgysylltu â'r gymuned gyfan.”
- “Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn hanfodol os ydym am sicrhau dyheadau a safonau uchel i bawb. Rydym yn gwybod bod y cartref a'r gymuned yn dylanwadu'n fawr ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc a bod angen rhagor o gymorth ar athrawon i fynd i'r afael â'r materion y mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.”

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn gofyn i ysgolion ac athrawon gynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n llawn profiadau i'r dysgwyr. Dylai mynediad teg a chyfartal i gyfleoedd fod wrth wraidd pob penderfyniad. Mae'r ddogfen hon yn annog

ysgolion i ystyried dull deg o gyflwyno addysg ac yn cynnig cyfle i drafod yn ehangach.

### **Y Sefyllfa Bresennol:**

Dywed data cenedlaethol yng Nghynllun Llesiant Ceredigion 2018-2023 fod 3,459 o ddisgyblion yn byw mewn tloedi yng Ngheredigion ar hyn o bryd. Mae bron i un o bob tri chartref yng Ngheredigion yn byw mewn tloedi. Rhwng 2018 a 2022 mae nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tloedi wedi cynyddu gan 9%. O ystyried yr argyfwng costau byw presennol, cydnabyddir yn gyffredin y bydd y ffigwr yma yn cynyddu ymhellach. Mae cydberthynas agos rhwng Covid-19, tloedi, a lles ac iechyd meddwl unigolion. Ers y pandemig, mae cynnydd amlwg wedi bod yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n chwilio am gymorth gydag anawsterau emosiynol cymhleth ac iechyd meddwl.

Mae Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion yn cydnabod yr angen i gefnogi disgyblion/teuluoedd difreintiedig a bregus. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn crybwyll yr angen i ddiogelu pobl rhag tloedi, hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw, cefnogi llesiant, ac amddiffyn y rhai mwyaf bregus drwy gynorthwyo ac ymyrryd yn gynnar. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion - 'Ceredigion Teg a Chyfartal' - yn sail i'r prif themâu a gyflwynir yn y canllawiau, gan gydnabod hefyd ddogfennau allweddol gan y llywodraeth, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Adroddiad Hunanasesu 2021/22 Ceredigion (Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a'r Amcanion Llesiant) hefyd yn blaenoriaethu'r angen i gefnogi dysgwyr o bob oed a chefnidir i ymwneud ag addysg a hyfforddiant, ac yn cydnabod yr angen i ddiogelu pobl rhag tloedi.

Un o brif amcanion y Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant yw cefnogi tegwch i bob dysgwr, yn enwedig yn dilyn Covid-19 a'r heriau ychwanegol y mae dysgwyr difreintiedig yn eu hwynebu. O ganlyniad, amcan y gwasanaeth oedd paratoi Strategaeth Amddifadedd ar gyfer ysgolion er mwyn darparu addysg deg i bob dysgwr.

Mae'r Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd yn cyd-fynd â chorff o waith ehangach sy'n ceisio cefnogi ein dysgwyr difreintiedig yn well. Mae neges bwysig yn ganolog iddi – bod angen mwy o gymorth ar ddysgwyr difreintiedig, a hynny'n amlach, i gael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion.

Mae'r gydnabyddiaeth a'r dealltwriaeth o'r heriau ychwanegol sy'n wynebu pobl ifanc Ceredigion yn rhywbeth sy' cynyddu. Mae'r Gwasanaeth Addysg a Diwylliant yn benderfynol o gynyddu a gwella'r dealltwriaeth o amddifadedd a chefnogi drwy dargedu'r ddarpariaeth. Yn hanesyddol, defnyddiwyd Prydau Ysgol Am Ddim i fesur pwy sydd dan anfantais addysgol. Yn ddiweddar, mae ysgolion yn cael eu hannog i ystyried y data yma ochr yn ochr â data Mynegai 4 Amddifadedd Lluosog Cymru (2019) sy'n fwy medrus o ran cydnabod amddifadedd drwy ddangosyddion lluosog. Mae tloedi gwledig yn amlwg a hynny ledled y sir, ac mae ysgolion yn dechrau ystyried defnyddio arian grant penodol i oresgyn rhwystrau rhanbarthol er mwyn datblygu addysg gyflawn a theg i bawb. Yn ogystal, mae data'r Mynegai Amddifadedd yn nodi materion megis cartrefi gwael, incwm, a diogelwch cymunedol. Mae cyflogau isel, diffyg gofal plant fforddiadwy, lleihad yn y Credyd Cynhwysol a

chostau uchel/fforddiadwyedd o ran tai yn golygu mai tlodi yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r awdurdod lleol.

O'r eiliad y mae pobl ifanc yn cyrraedd yr ysgol, rhaid gwneud pob ymdrech i ddileu unrhyw rwystr a wynebir gartref. Mae'r ddogfen hon yn cefnogi ysgolion i barhau i ddatblygu'r egwyddor o degwch er budd anghenion yr unigolion.

<b>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</b>	<b>Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam</b> <b>Crynodeb:</b> <b>Hirdymor:</b> <b>Cydweithio:</b> <b>Cynnwys:</b> <b>Atal:</b> <b>Integreiddio:</b>	<b>Oes</b>
<b>Argymhellion:</b>	<ol style="list-style-type: none"><li>1. Cymeradwyo Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion.</li><li>2. Bod adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wneir gyda Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Ceredigion yn cael ei gyflwyno i'r ysgolion a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n Dysgu.</li></ol>	
<b>Rheswm dros y penderfyniad:</b>	I sicrhau bod gan ysgolion strategaeth briodol - sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth - i gefnogi disgyblion difreintiedig	
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	<a href="#"><u>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu-08.12.22</u></a>	
<b>Fframwaith Polisi:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Polisi Amddiffyn a Diogelu Plant</li><li>• Polisi Cwricwlwm</li><li>• Polisi Cydraddoldeb</li><li>• Polisi Disgyblaeth Disgyblion</li><li>• Egwyddorion a Disgwyliadau Ceredigion o Ysgolion a Gynhelir ar gyfer Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021 / Polisi Anghenion Addysgol Arbennig</li><li>• Polisi Presenoldeb</li><li>• Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal</li><li>• Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion</li><li>• Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion</li></ul>	
<b>Amcanion Llesiant Corfforaethol:</b>	Strategaeth Gorfforaethol: Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu	
<b>Goblygiadau Cyllid a Chaffael:</b>	Dim	

<b>Goblygiadau cyfreithiol:</b>	Dim
<b>Goblygiadau staffio:</b>	Dim
<b>Goblygiadau eiddo / asedau:</b>	Dim
<b>Risg(iau):</b>	Dim
<b>Pwerau Statudol:</b>	Dim
<b>Papurau Cefndir:</b>	Dim
<b>Atodiadau:</b>	Atodiad 1- Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd Partneriaeth Canolbarth Cymru  Atodiad 2- Asesiad Effaith Integredig
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant
<b>Swyddog Adrodd:</b>	Gareth Lewis/ Gillian Evans
<b>Dyddiad:</b>	26 Ionawr 2023

# Partneriaeth Canolbarth Cymru

## Strategaeth Tegwch ac Amddifadedd



Partneriaid Addysg  
Canolbarth Cymru  
Mid Wales  
Education Partners



Cyngor Sir  
CEREDIGION  
County Council



### Sail resymegol

Mae Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (2017) yn datgan yn glir bwysigrwydd 'ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant'. Un o gamau gweithredu allweddol y ddogfen yw sicrhau ein bod ni'n partneru tegwch â rhagoriaeth, gan nodi ffyrdd newydd ac effeithiol o fesur a gwella llesiant dysgwyr. Pwrpas y strategaeth hon yw hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb a chynnig dulliau clir o werthuso a gwella ysgolion.

---

*'Rydym wedi ymrwymo i lwyddiant a lles pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau personol. Mae tegwch a rhagoroaeth yn mynd llaw yn llaw, ac ni allwn gael un ar draul y llall. Ni ddylai daearyddiaeth, amddifadedd na phrofiadau plentyndod atal dysgwyr rhag gwireddu eu potensial.'* (Llywodraeth Cymru, 2017)

Mae cyd-destunau ysgolion yn amrywio'n fawr, a bydd pob ysgol ar gam gwahanol o'i thaith tuag at welliant. Nod y strategaeth hon yw hyrwyddo trafodaeth gadarnhaol ar y testun tegwch, addysgu o ansawdd da a lles dysgwyr. Yn hanfodol, dylai'r trafodaethau hyn gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, megis disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r strategaeth yn herio athrawon ac arweinwyr ysgolion i ystyried ffyrdd effeithiol a blaengar o ddiwallu anghenion pob dysgwr.

Mae codi ymwybyddiaeth o'r heriau a'r rhwystrau a wynebir gan ddysgwyr difreintiedig yn galluogi ymarferwyr ysgolion a chymuned ehangach yr ysgol i gyfrannu mewn ffordd gydwethredol at gynhwysiant a chydaddoldeb. Mae tegwch mewn addysg yn golygu nad yw sefyllfaoedd personol neu gymdeithasol fel rhyw, tarddiad ethnig, neu gefndir teuluol, yn rhwystr i gyflawni potensial addysgol (tegwch) a bod pob unigolyn yn cyrraedd o leiaf lefel sylfaenol o sgiliau (cynhwysiant) (Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, OECD, 2012).

O'i defnyddio'n dda, bydd ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth yn y strategaeth i wneud penderfyniadau gwybodus am arfer cyfredol. Bydd meysydd i'w gwella'n cael eu nodi a'u rhoi ar waith yn bwrpasol drwy weithdrefnau hunanfarnu a chynlluniau gwelliant cadarn. Bydd arfer effeithiol yn cynnwys trafodaethau ehangach ar feysydd i'w datblygu â rhanddeiliaid ehangach, ochr yn ochr ag ymchwil seiliedig ar dystiolaeth ar sut i hyrwyddo tegwch ar draws yr ysgol.

Yn yr un modd ag y dylai cymorth i bobl ifanc fod yn unigryw a chael ei ystyried yn ofalus; mae'r argymhellion, yr ystyriaethau a'r syniadau o fewn y strategaeth hon wedi'u cynllunio i fod yn gyfleoedd i'w hystyried ymhellach ac i arwain staff at ymholi proffesiynol. Nid

---

cyfarwyddiadau mohonynt ond dylid eu hystyried yn ofalus, eu teilwra, eu haddasu neu eu hanwybyddu i gwrdd ag anghenion cynyddol a chyd-destun pob sefydliad addysgol.

**Dylid ystyried y strategaeth hon ochr yn ochr â'r dogfennau allweddol canlynol:**

<b>Ceredigion</b>	<b>Powys</b>
Strategaeth gwrth-dlodi ac ati	

DRAFT

---

## Cynnwys

Rhan	Teitl	Pwrpas
1	Crynodeb Canolbarth Cymru	Pam fod y ddogfen hon yn bwysig a pham ddylid ei defnyddio?
2	Tegwch	
3	Llesiant	
4	Addysgu o Ansawdd Da	
5	Yr Allwedd i Lwyddiant	
6	Arweinyddiaeth	Cyfle i fyfrio ar arfer cyfredol a chynllunio ar gyfer gwelliant
7	Cwricwlwm i Gymru	
8	Cymuned yr Ysgol	
9	Cymorth Anghydraddoldeb Rhanbarthol	
10	Cymorth ac Ymyrraeth	
11	Dyheadau Uchel	
12	Gwella a Gwerthuso	
13	Casgliad	
14	Cyfeiriadau	



---

## Llais y Disgybl – yr heriau a wynebir wrth fyw yng Ngheredigion:

*Mae lle ry'n ni'n byw yn neis iawn, ond mae'n gallu bod yn anodd hefyd. Weithiau pan fyddwn ni'n gorffen stwff ar ôl ysgol mae'r disgyblion sy'n byw yn y dre yn gallu cerdded adre'n hawdd ac mae disgyblion eraill yn gorfod aros am fws neu lifft. Dwi'n credu bod hyn yn atal rhai disgyblion.*

*Rwy'n credu y dylai fod mwy o adeiladau crefyddol, fel mosgiau a synagogau lle ry'n ni'n byw. Rwy'n credu y byddai'n golygu bod mwy o bobl yn symud i'r ardal.*

*Rwy'n credu bod gennon ni gyfleusterau chwaraeon da, ond maen nhw wastad yn cael eu hailddatblygu i ddod â nhw i safon sy'n iawn. Dy'n nhw byth yn rhyfeddol; dim ond yn dderbyniol.*

*Does dim llawer o ysbytai neu gyfleusterau iechyd lle ry'n ni'n byw, rwy'n credu y gellid gwella hyn. Hefyd does gennon ni ddim deintydd mewn gwirionedd, fe allai hynny fod yn well.*

*Mae rhai disgyblion yn bendant yn cael amser haws yn yr ysgol nag eraill. Er enghraifft, weithiau dim ond un person yn y dosbarth sydd wedi dod o ysgol fach ac yna mae llawer o bobl eraill o ysgol gynradd fawr. Rwy'n credu ei bod hi'n anoddach i'r rhai o ysgolion bach am fod ganddyn nhw lai o ffrindiau pan fyddant yn symud.*

*Does dim llawer o swyddi yma. Nid yn unig i oedolion ond i ddisgyblion hefyd. Dwi'n meddwl y dylai fod mwy o bethau fel swyddi gwyddoniaeth a mathemateg yng Ngheredigion fel bod pobl yn aros yn fwy lleol. Os ydyn ni'n mynd i Brifysgol, ry'n ni hefyd yn gorfod talu mwy i fynd oherwydd bod gennym gostau llety am nad oes 'na Brifysgol yn y dre yma.*


---

DRAFT

---

## Llinell Amser Datblygu Strategaeth

DRAFT



---

## Tegwch

Mae ysgolion teg yn deall bod manteision a rhwystrau'n bodoli mewn addysg, yn cydnabod bod gan bob dysgwr nodweddion personol a chymdeithasol gwahanol, ac yn ymrwymo i gywiro'r anghydbwysedd hwn. Mae'n amhosib ystyried tegwch, dysgu o ansawdd da, a lles fel endidau ar wahân. Yn lle hynny, dylid ystyried addysgu o ansawdd da, lles a thegwch ar y cyd. Yn syml, ni allwch gael ysgol ragorol heb roi ystyriaeth gyfartal i degwch, lles ac addysgu o ansawdd da.

Nid oes diffiniad swyddogol o degwch ar gael o fewn polisi addysgol yng Nghymru. At ddiben y ddogfen hon, caiff tegwch mewn ysgol ei ddiffinio fel:

*Amgylchedd lle mae pob dysgwr, er gwaethaf amgylchiadau personol neu gymdeithasol, yn cael mynediad at ddysgu, cyfleoedd a chefnogaeth rhagorol. Mae amrywiaeth yn cael ei ddathlu ac mae'r ysgol yn gweithio'n ddiplino i herio rhagfarn, bwlio, neu stereoteipio ar sail nodweddion gwarchoddedig. Hyrwyddir llais disgyblion a rhieni, ac mae'r holl staff yn cydnabod bod angen mwy o gymorth ar ddysgwyr difreintiedig, a hynny'n amlach.*

Wrth i ysgolion weithio tuag at greu amgylchedd teg, mae'n bwysig cofio nad yw creu ysgol deg yn arwain at ddeilliannau cyfartal. Rôl ysgolion yw sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle teg i lwyddo a bod cynllunio effeithiol a strategaethau gwella ysgolion yn cael eu sefydlu i gefnogi hyn. Yn ogystal, mae tegwch i bawb yn golygu y dylai pob dysgwr gael ei drin yn wahanol i gefnogi ei anghenion penodol, sy'n newid yn barhaus. Mae gan bob dysgwr yr hawl i addysg bwrpasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddiwallu ei anghenion penodol. Ar adegau bydd gofyn i'r ysgol ddarparu cymorth ychwanegol sydd wedi'i gynllunio'n dda ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais.

Gall amddifadedd mewn addysg amlygu ei hun mewn sawl ffordd. Rhaid i ysgolion a staff fod wedi arfer ag adnabod gwendidau a bod â strategaethau cadarn ar waith i'w cynnig i bobl ifanc. Mae'n gamsyniad cyffredin bod amddifadedd yn gysylltiedig â thlodi yn unig. Mae'n wir, wrth gwrs y gall dysgwyr dan anfantais fod yn byw mewn tlodi; fodd bynnag, mae gwir

---

anfantais yn ymestyn yn ehangach o lawer. Yng Nghanolbarth Cymru, er enghraifft, rhaid i bob dysgwr oresgyn tlodi cefn gwlad yn sgil mynediad gwael at wasanaethau a chyfleoedd, o'i gymharu â dysgwyr eraill ar draws ardaloedd trefol Cymru. Mae darpariaeth addysg deg yn cydnabod anfantais ac yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod rhwystrau rhag llwyddiant yn cael eu lleihau, neu'u goresgyn, ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

## Llesiant

Mae llesiant yn cwmpasu iechyd corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol unigolyn. Mae'r portread o lesiant cadarnhaol yn un o unigolyn uchelgeisiol a mentrus, sy'n gallu cyfrannu'n hyderus ac yn greadigol at ei fywyd ei hun ac eraill, gan wneud penderfyniadau gwybodus, moesegol ar sail ei sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau, i oresgyn anawsterau a datrys problemau, sy'n golygu ei fod yn cael bywyd hapus ac iach ac yn cefnogi'r rhai sydd o'i amgylch.

Mae astudiaethau niferus yn dangos bod llesiant da dysgwyr yn gyfraniad allweddol at gyrhaeddiad dysgwyr. Mae canllawiau'r fframwaith ar gyfer sefydlu dull ysgol gyfan o sicrhau iechyd meddwl a lles emosiynol (2021) yn cyfeirio at ddogfen sy'n nodi:

*"Mae iechyd a lles plant a phobl ifanc yn cyfrannu at eu gallu i elwa ar addysgu o ansawdd da a chyflawni eu potensial academaidd llawn.."*

Mae'n nodi ymhellach:

*"Mae llwyddiant academaidd yn cael effaith gadarnhaol gref ar ymdeimlad goddrychol plant o ba mor dda maent yn teimlo yw eu bywydau (boddhad bywyd) ac mae'n gysylltiedig â lefelau uwch o lesiant pan fyddant yn oedolion. Yn ei dro mae lefel gyffredinol llesiant plant yn effeithio ar eu hymddygiad a'u hymgysylltiad yn yr ysgol, a'u gallu i gaffael cymhwysedd academaidd yn y lle cyntaf."*

Mae ysgolion yn aml yn cydnabod bod dysgwyr dan anfantais yn fwy tebygol o ddiodef o iechyd meddwl gwael. Canfu astudiaeth gan yr Adran Addysg, sef Effaith Ymddygiad a

---

Llesiant Disgyblion ar Ddeilliannau Addysgol (2012) bod pobl ifanc gyda lefelau uwch o lesiant emosiynol, ymddygiadol, cymdeithasol ac yn yr ysgol, yn cyrraedd lefelau uwch o lwyddiant academaidd ar gyfartaledd, a'u bod yn cymryd mwy o ddiddordeb yn yr ysgol. Hefyd mae'n mynd ymlaen i esbonio, wrth i blant symud trwy'r system ysgol, bod llesiant emosiynol ac ymddygiadol yn dod yn nodweddion pwysicach o ran cymryd diddordeb yn yr ysgol, tra bod nodweddion demograffig a nodweddion eraill yn dod yn llai pwysig. Felly, er mwyn i ysgolion leihau unrhyw fwlch o ran cyrhaeddiad a rhoi cefnogaeth go iawn i ddysgwyr dan anfantais, rhaid derbyn ethos sy'n rhoi blaenoriaeth i lesiant yn gyffredinol er mwyn gwella presenoldeb a sicrhau ymgysylltiad llwyddiannus â'r cwricwlwm.

## **Addysgu o Ansawdd Da**

Derbynnir yn gyffredinol mai addysgu o ansawdd da yw'r ffactor pwysicaf o ran gwella cyrhaeddiad dysgwr. Mae hyn yn arbennig o wir am ddysgwyr dan anfantais ac mae'n cryfhau'r angen am athrawon dosbarth rhagorol i ddarparu addysg sy'n wirioneddol deg. Rhaid arfogi athrawon i ddarparu addysgu o ansawdd da drwy amrywiaeth o strategaethau creadigol a diddorol sy'n diwallu angenion pob dysgwr. Mae ffocws cryf ar ansawdd athrawon yn hanfodol o ystyried y dystiolaeth o ran pwysigrwydd ansawdd athrawon a lefelau addysgu is o fewn ardaloedd mwy difreintiedig (Hanushek a Rivkin, 2006). Mae cadw a recriwtio staff o ansawdd da yn hanfodol wrth gefnogi'r rhai sydd dan yr anfantais fwyaf.

Mae pob ymarferwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc angen dealltwriaeth gadarn o strategaethau sy'n wirioneddol effeithiol i gefnogi pob dysgwr, ond yn enwedig y rhai sydd dan yr anfantais fwyaf, i gael mynediad llawn at addysg. Mae gan uwch arweinwyr ddyletswydd i sicrhau bod athrawon yn cael cefnogaeth addas i gael mynediad at ddeunydd hyfforddi, a dylent fod yn ystyriol o anghenion y rhai sydd dan yr anfantais fwyaf wrth benderfynu ar gyfleoedd DPP.

Mae'r bwlch rhwng perfformiad dysgwyr dan anfantais a rhai nad ydynt dan anfantais yng Nghymru yn amlwg. Mewn astudiaeth ddiweddar gan y Sefydliad Polisi Addysg (2022),

---

canfuwyd bod y bwlch anfantais o ran TGAU yn gyfystyr â thua 22-23 mis o gynnydd addysgol, a bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn llawer llai tebygol o gyrraedd cwintel uchaf y sgorau TGAU. Mae un o ganfyddiadau allweddol yr astudiaeth yn nodi:

*“Mae ffocws cryf ar ansawdd athrawon yn hanfodol. Gall hyn gynnwys polisiau a luniwyd i wella recriwtio a chadw athrawon o ansawdd da mewn ardaloedd mwy difreintiedig, megis taliadau cyflog atodol a mynediad at ddatblygiad proffesiynol o ansawdd da.”*


Mae'n hanfodol, felly, bod pobl ifanc difreintiedig â'r athrawon gorau. I gyflawni hyn, rhaid i ysgolion ymrwymo i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol rhagorol, a gweithio'n galed i gadw'r staff gorau.



---

## Pam fod tegwch, llesiant ac addysgu o ansawdd da yn allweddol i lwyddiant?

Mae yna gysylltiad annatod rhwng llesiant, tegwch ac addysgu o ansawdd da, a byddai'n gamarweiniol ymholi am y naill heb ystyried y llall. Mae ymchwil yn cadarnhau'r datganiad hwn ac mae arfer rhagorol yn digwydd pan fydd ysgolion yn cefnogi pobl ifanc mewn amgylchedd lle mae pob elfen yn gydradd. Pan fydd dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu o fewn amgylchedd, a phan fydd ganddynt ymdeimlad o berthyn a chyswllt â chymuned yr ysgol, maen nhw'n fwy tebygol o wneud cynnydd academaidd, cymdeithasol ac emosiynol. Mae gan ysgolion ddyletswydd i osod safonau uchel ym mhob un o'r meysydd hyn. Atgyfnerthir hyn yn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgu (2018) sy'n nodi y bydd y Ddeddf yn chwarae rhan hanfodol o ran galluogi'r cwricwlwm i ddarparu ysgolion cryf a chynhwysol, sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant.



<b>Tegwch, Llesiant ac Addysgu o Ansawdd Da</b>				
	<b>1 (Gwannach) sef</b>		<b>4 (Cryfach) sef</b>	
<b>Disgrifiad</b>	<p>Trafodir Tegwch, Llesiant ac Addysgu ar wahân gan staff gwahanol ar draws yr ysgol. Does dim cyfle da i rannu arfer. Mae parodrwydd a chyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â'r dysgu yn cael eu hystyried ar wahân i addysgeg.</p> <p>Anaml y mae cefnogaeth ychwanegol yn cael ei hystyried.</p>		<p>Mae staff yn deall y dylai tegwch, llesiant ac addysgu gael eu hystyried gyda'i gilydd. Mae cyfleoedd rheolaidd i ymarferwyr arweiniol gydweithio a rhannu dealltwriaeth o arfer da. Mae yna gyd-ddealltwriaeth bod 'parodrwydd i ddysgu' yr un mor bwysig â'r dysgu ei hun. Mae darparu cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr dan anfantais yn cael ei ystyried a'i roi ar waith yn rheolaidd.</p>	
<b>Gwerthusiad</b>	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>
<b>Unrhyw sylwadau:</b>				
<b>Cwestiynau i'w hystyried:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A yw llesiant y dysgwr, addysgu o ansawdd da, a thegwch yn cael blaenoriaeth yn eich defnydd o arian grant?</li> <li>• I ba raddau y mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi ac yn ystyried llesiant dysgwyr a thegwch?</li> <li>• I ba raddau y mae'r ysgol a'r cwricwlwm yn datblygu agweddau ac ymddygiad iach?</li> <li>• I ba raddau y mae dulliau'r ysgol yn sicrhau tegwch i <u>bob</u> dysgwr mewn perthynas â: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Mynediad at brofiadau ac adnoddau dysgu?</li> <li>○ Dathlu amrywiaeth a dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig?</li> <li>○ Dysgwyr sy'n byw mewn tlodi?</li> <li>○ Dysgwyr yn cael dylanwad ar yr hyn maent yn ei ddysgu?</li> <li>○ Gweithgareddau pontio a dilyniant ôl-16?</li> <li>○ Gweithio gyda rhieni a phartneriaid eraill?</li> </ul> </li> </ul>			

---

## Strategaethau i Gefnogi Tegwch mewn Addysg

### Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn galluogi athrawon a myfyrwyr i ddatblygu ochr yn ochr â'i gilydd. Dylai arweinwyr ymdrechu i ddatblygu diwylliant o ymchwil, cydweithio ac arloesi sy'n arwain at welliannau proffesiynol sy'n gwneud gwahaniaeth yn yr ystafell ddosbarth. O'i wneud yn dda, mae hyn yn cael ei ategu gan systemau, polisiau, a gweithdrefnau effeithiol sy'n deg ac yn gynhwysol. Dylai ysgol gael gweledigaeth gadarn sy'n arwain at addysgu o ansawdd da, wedi'i ddylanwadu gan egwyddorion pedagogaid seiliedig ar ymchwil, a hynny o fewn amgylcheddau dysgu sydd ag adnoddau effeithiol ac sy'n ennyn diddordeb. Mae uwch arweinwyr ysgolion mwy llwyddiannus yn sicrhau bod staff yn barod i wneud beth bynnag sydd ei angen i helpu pob disgybl i lwyddo. Maent yn gwneud pob aelod staff yn atebol am gynnydd y disgyblion (Adran Addysg, 2015).

Fel y crebwyllwyd eisoes, gellir ond sicrhau tegwch ochr yn ochr ag ystyriaeth ofalus o les dysgwyr, a dysgu ac addysgu o ansawdd da. Rhaid i arweinwyr ddefnyddio tystiolaeth ac arbenigedd i greu amgylchedd lle gall pob dysgwr gyrraedd ei botensial. Mae arfer effeithiol yn gofyn bod ysgolion yn cydweithio'n adeiladol â lleoliadau a rhanddeiliaid eraill, ac yn cynnwys pobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae uwch arweinwyr ysgolion llwyddiannus yn tueddu i rannu eu syniadau, ac maent yn cydweithio â staff, disgyblion, rhieni, teuluoedd a'r gymuned leol. Rhaid i arweinwyr sicrhau bod gan eu hysgolion gyswllt â nifer o rwydweithiau megis clystyrau ysgolion lleol, rhwydweithiau addysgu, fforymau ar-lein, a digwyddiadau addysg cenedlaethol, yn ogystal â gweithio i chwilio am syniadau newydd a rhoi systemau ar waith i staff rannu arfer gorau (Adran Addysg, 2015). Mae addysg wael yn effeithio'n anghymesur ar y disgyblion sydd dan yr anfantais fwyaf, a rôl arweinwyr yw datblygu amgylchedd sy'n caniatáu cyfleoedd teg a chyfartal i bawb.

Yn ôl y Sefydliad Polisi Addysg (2022) dangoswyd bod cyllid ychwanegol wedi'i dargedu at ysgolion mwy difreintiedig yn effeithiol o ran lleihau'r bwlch anfantais. Dylid targedu mwy o

---

gyllid yn benodol at ddisgyblion dan anfantais. Fodd bynnag, mae defnydd effeithiol o arian i dargedu disgyblion dan anfantais a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gofyn am y sgiliau, arweiniad a chynllunio strategol iawn. Canfu gwerthusiadau Estyn o awdurdodau lleol sy'n cyflawni'n well fod arweinyddiaeth o ansawdd da ar lefel leol a lefel ysgol wrth gynllunio ar gyfer gwariant yn gallu gwneud gwahaniaeth i ddeilliannau myfyrwyr (Estyn, 2010).

### **Bydd Partneriaeth Canolbarth Cymru yn:**

- Nodi enghreifftiau o arfer da o ran arweinyddiaeth uwch reolwyr a rheolwyr canol
- Sefydlu Rhwydweithiau Arweinyddiaeth i rannu arfer effeithiol, rhannu syniadau ac adeiladu ysgolion allblyg
- Darparu hyfforddiant arweinyddiaeth a chyfleoedd datblygiad proffesiynol effeithiol ar gyfer arweinwyr ysgol

### **Beth ddylai ysgolion ei wneud:**

- Sicrhau bod amddifadedd a chefnogi dysgwyr difreintiedig yn cael eu hystyried ar draws pob agwedd o fywyd yr ysgol, a bod yna gysylltiadau rhwng cefnogi dysgwyr mwy agored i niwed â disgyblion eraill yn yr ysgol
- Sicrhau cyfleoedd i staff fynychu hyfforddiant a darllen canllawiau/ymchwil ar gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais a rhai sy'n agored i niwed

## Gwerthusiad o arfer cyfredol:

Arweinyddiaeth				
	1 (Gwannach) sef		4 (Cryfach) sef	
Disgrifiad	Prin yw'r rhai sy'n ystyried anghenion dysgwyr dan anfantais yr ysgol. Mae pob agwedd o fywyd yr ysgol (y cwricwlwm, dysgu ac addysgu, cefnogi iechyd meddwl a llesiant ac ati) yn cael eu hystyried ar wahân ac nid oes llawer o gyfle ar gyfer trafodaeth ehangach.		Mae'r holl uwch reolwyr a rheolwyr canol yn ystyried anghenion dysgwyr dan anfantais. Mae uwch reolwyr yn gwneud penderfyniadau strategol sy'n hyrwyddo cymorth holistaidd gan bob un o aelodau staff yr ysgol. Mae cyfleoedd DPP yn effeithiol ac yn diwallu anghenion yr ysgol a'r gymuned ehangach.	
Gwerthusiad	1	2	3	4
Unrhyw sylwadau:				
Cwestiynau i'w hystyried:	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I ba raddau y mae'r arweinyddiaeth yn sefydlu systemau, polisiau a gweithdrefnau teg i sicrhau addysgu rhagorol ar gyfer dysgwyr dan anfantais?</li> <li>• I ba raddau y mae'r arweinyddiaeth yn sefydlu systemau, polisiau a gweithdrefnau teg i flaenoriaethu llesiant dysgwyr ?</li> <li>• I ba raddau y mae'r arweinyddiaeth yn cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o wneud penderfyniadau teg?</li> <li>• Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ysgolion cymunedol?</li> <li>• I ba raddau y mae'r arweinyddiaeth yn dylanwadu ar, ac yn gwella'r dysgu a'r addysgu?</li> <li>• I ba raddau y mae'r arweinyddiaeth yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn perthynas ag arfer teg a chefnogi dysgwyr dan anfantais?</li> </ul>			

---

## Cwricwlwm i Gymru

Mae Cwricwlwm i Gymru'n mynd ochr yn ochr â chyfres ehangach o ddiwygiadau ar draws System Addysg Cymru. Mae cwricwlwm teg i bawb, sydd wedi'i gynllunio'n dda, yn ganolog o ran sicrhau bod pob dysgwr yn ymgysylltu â'r dysgu ac yn cyrraedd ei botensial. Mae'n bwysig cydnabod bod cwricwlwm eang a chytbwys yn cwmpasu pob agwedd ar fywyd o fewn cymuned ysgol, a bydd cwricwlwm gwirioneddol eang a chytbwys yn ystyried y darlun ehangach – amserau egwyl effeithiol, clybiau boreol, gweithgareddau allgyrsiol a mwy. Dylai cwricwlwm ysgol gynnwys popeth y mae dysgwr yn ei brofi wrth geisio cyflawni'r pedwar diben. Mae'n ymwneud â beth rydym yn ei addysgu, sut rydym yn ei addysgu, ac yn bwysicaf oll, pam ein bod yn ei addysgu (Llywodraeth Cymru 2020).

Bydd cynllunio cwricwlwm llwyddiannus hefyd yn helpu i gau'r blwch o ran cyrhaeddiad. Dylai datblygu cwricwlwm fod wrth wraidd ymdrechion ymarferwyr ac ysgolion, yn ogystal ag ymdrechion cenedlaethol i godi safonau ar gyfer pawb, mynd i'r afael â'r bwlch o ran cyrhaeddiad, a sicrhau system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac yn ennyn hyder y cyhoedd. (Llywodraeth Cymru 2020). Bydd defnyddio adnoddau i wneud addasiadau rhesymol a darparu ymyriadau wedi'u targedu yn cynorthwyo dysgwyr dan anfantais i gael mynediad teg i ysgolion. Er enghraifft, bydd y ffocws ar lais y digybl a phrofiad gwell i ddysgwyr yn y cwricwlwm newydd yn darparu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dan anfantais leisio'u barn, ac yn creu cysylltiadau rhwng dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth â phrofiadau bywyd go iawn. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, rhaid dylunio'r cwricwlwm gyda'r dysgwr tlotaf mewn golwg, ac ni ddylai'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd gael ei gyfyngu gan statws economaidd-gymdeithasol.

Mae sicrhau tegwch wrth ddylunio cwricwlwm yn bwysig ar lefel strategol, ond dylid hefyd ei addysgu i bobl ifanc yn unol â disgwyliadau'r cwricwlwm newydd. Er enghraifft, mae'n ofyniad statudol bod ysgolion yn addysgu Cydberthynas a Rhywioldeb, ac mae'r canllawiau'n pwysleisio pwysigrwydd addysgu am degwch a hawliau plant. Dylai dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut y mae hawliau'n gysylltiedig â phob agwedd ar Gydberthynas a Rhywioldeb ac yn gyfrannu at ryddid, urddas, llesiant a diogelwch pawb. Mae hyn yn helpu

---

dysgwyr i ddeall pwysigrwydd tegwch, gan gydnabod pwysigrwydd hawliau o ran sicrhau triniaeth deg i bawb (Llywodraeth Cymru, 2020). Ar ei orau, dylai'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth adlewyrchu ethos teg yr ysgol.

### **Bydd Partneriaeth Canolbarth Cymru yn:**

- Annog arfer effeithiol gan ysgolion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a darparwyr addysg
- Ystyried cefnogi anghenion dysgwyr dan anfantais cyn rhannu adnoddau, cynllunio hyfforddiant ac ymgysylltu ag ysgolion

### **Beth ddylai ysgolion ei wneud:**

- Ystyried anghenion dysgwyr dan anfantais wrth gynllunio i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol
- Gwneud penderfyniadau strategol ar ddatblygu'r cwricwlwm yn seiliedig ar arfer da a welwyd, a sicrhau bod dysgwyr sydd dan yr anfantais fwyaf yn cael cymorth priodol i gyflawni ochr yn ochr â'u cyfoedion mwy breintiedig
- Darparu amgylchedd sy'n dathlu amrywiaeth o gymwysterau a llwyddiannau, yn gosod safonau uchel, ac yn ysbrydoli pob dysgwr i lwyddo

## Gwerthusiad o arfer cyfredol :

Cwricwlwm i Gymru				
	1 (Gwannach) sef		4 (Cryfach) sef	
<b>Disgrifiad</b>	Ni ddefnyddir arfer seiliedig ar dystiolaeth na gweithgareddau sicrhau ansawdd effeithiol i gynorthwyo i ddatblygu'r cwricwlwm. Nid yw dymuniadau'r dysgwyr yn cael eu hystyried a phrin yw'r dystiolaeth o arfer pwrpasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n arwain at gynnydd effeithiol. Ychydig iawn o ymgysylltu sydd yna â'r gymuned leol a rhanddeiliaid ehangach.		Mae'r cwricwlwm wedi'i ddylunio i gynorthwyo pob dysgwr i gyflawni, a rhoddir cymorth ychwanegol i ddysgwyr dan anfantais i hwyluso hyn. Mae'r cwricwlwm yn ddifyr ac mae llais y dysgwr yn gryf. Mae yna gysylltiadau cymunedol cryf ac mae athrawon ac uwch arweinwyr yn hyrwyddo 'profiadau' effeithiol ar gyfer y dysgwyr. Gwahoddir rhanddeiliaid ehangach i'r ysgol yn rheolaidd ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau perthnasol a phriodol.	
<b>Gwerthusiad</b>	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>
<b>Unrhyw sylwadau:</b>				
<b>Cwestiynau i'w hystyried:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I ba raddau y mae'r ffordd mae'r cwricwlwm yn cael ei gynllunio a'i gyflenwi'n diwallu anghenion pob dysgwr?</li> <li>• A yw pob dysgwr yn cael mynediad teg a chyfartal at gwricwlwm eang a chytbwys?</li> <li>• I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn galluogi dilyniant i bob dysgwr ar hyd y continwmm dysgu?</li> <li>• I ba raddau y mae'r cwricwlwm yn ymgorffori cyfleoedd ar gyfer asesu teg?</li> </ul>			



- 
- |  |   |
|--|---|
|  | <ul style="list-style-type: none"><li>• Faint o ystyriaeth mae'r ysgol yn ei rhoi i'w gweledigaeth o ran gwariant ar adnoddau i sefydlu cwricwlwm teg?</li><li>• I ba raddau y mae'r ysgol yn denu cyfraniadau gan y gymuned a phartneriaid eraill i ddatblygu cwricwlwm teg?</li></ul> |
|--|---|

DRAFT

---

## Yr Ysgol a'r Gymuned

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn hanfodol i feithrin tegwch mewn ysgol. Gall cydnabod bod modd i'r gymuned ehangach gefnogi pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n profi amddifadedd, helpu i feithrin diwylliant ysgol allblyg, fel bod y gymuned a'r ysgol yn cydweithio i sicrhau bod pob dysgwr yn cyrraedd ei lawn botensial. Mae sefydlu amgylchedd dysgu a chwricwlwm sy'n adlewyrchu'r gymuned yn ffocws mawr yn y cwricwlwm newydd. Mae canllawiau Ystyriaethau Gweithredu ac Ymarferol Llywodraeth Cymru (2021) ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn nodi y dylai ysgolion gynnwys dysgwyr, rhieni, gofalwyr, asiantaethau partner a'r gymuned leol wrth ddatblygu cwricwlwm. Mae hon yn ffordd bwysig o sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion dysgwyr a'i fod yn ddilys i'w cyd-destun o fewn y fframwaith cenedlaethol. Mae ysgolion ac ymarferwyr hefyd yn chwarae rhan hollbwysig o ran sicrhau bod dysgwyr, rhieni, gofalwyr a chymunedau'n deall y weledigaeth a'r ethos sy'n sail i'r cwricwlwm. Argymhellir trwy gydol y ddogfen bod yn rhaid i'r ysgol hefyd baratoi dysgwyr i ddod yn aelodau gweithgar o'u cymunedau, a chael cyfleoedd i feithrin perthynas â rhanddeiliaid ehangach yr ysgol, i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog.

Mae Ysgolion Cymunedol yn strategaeth seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi'r cysyniad o gysylltiadau effeithiol rhwng y gymuned â'r ysgol. Mae pedair colofn o gymorth effeithiol – cymorth integredig i fyfyrwyr, amser a chyfleoedd dysgu estynedig, ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned, ac arweinyddiaeth ac arfer cydweithredol. Canfu adolygiad tystiolaeth o arfer gan y Sefydliad Polisi Dysgu (2017) bod ysgolion gyda chysylltiadau cymunedol cryf yn gwella canlyniadau'r ysgol ac yn cyfrannu at ddiwallu anghenion dysgwyr isel eu cyflawniad mewn ysgolion â thlodi uchel. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn ogystal bod yna fudd o ran cau bylchau cyrhaeddiad a chyfleoedd i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel, teuluoedd o grwpiau ethnig lleiafrifol, a dysgwyr ag anableddau. Mae cynnig cymorth integredig, megis cwnsela effeithiol, cymorth meddygol, a chymorth gyda thrafnidiaeth yn arwain at wella ymddygiad, gweithrediad cymdeithasol a chyflawniad academaidd.

I ddysgwyr ifanc yng nghefn gwlad Cymru, mae cysylltu'r wybodaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn yr ystafell ddosbarth â phrofiadau blaenorol yn her. Ar adegau, mae dysgwyr sy'n byw yn

ardaloedd gwledig Cymru, yn enwedig y rhai sydd dan yr anfantais fwyaf, yn brin o brofiadau bywyd oherwydd natur anghysbell eu cymunedau lleol a'u teuluoedd. Gall hyn arwain at leihau gallu unigolyn ifanc i elwa'n llawn o addysg eang a chytbwys. Drwy fyw mewn cymuned wledig, mae'r disgyblion sydd dan anfantais nid yn unig yn cael eu heffeithio gan y bwlch cyrhaeddiad presennol mewn addysg, ond maent hefyd yn fwy tebygol o ddioddef oherwydd 'blwch cyfleoedd', o'i gymharu â chyfoedion sy'n byw mewn rhannau mwy preswyl a threfol o Gymru. Rhaid i ysgolion fod yn ymwybodol o fuddiannau ymgysylltu â'r gymuned, a chynllunio i ymgysylltu yn y dyfodol er mwyn gweithio i oresgyn amddifadedd gwledig.

### Bydd Partneriaeth Canolbarth Cymru yn:

- Nodi enghreifftiau o arfer da wrth ffurfio ysgolion cymunedol a ffyrdd o oresgyn rhwystrau posib
- Cefnogi defnydd creadigol o adnoddau i ymgysylltu â chyfleoedd ymchwil weithredu, a gweithio ochr yn ochr ag ysgolion, gan geisio datblygu ysgolion cymunedol
- Parhau i addasu strategaethau gydag astudiaethau achos o arfer da
- Gweithio i ddatblygu cynigion ymchwil weithredu ochr yn ochr â phenaethiaid ac uwch dimau arweinyddiaeth (awgrymiadau isod yn ymwneud â phryderon ynghylch ysgolion cymunedol ac ardaloedd gwledig) sy'n annog datblygiad ysgolion cymunedol:

Syniad 1	Syniad 2	Syniad 3
Blaenoriaethu un prynhawn yr wythnos ar gyfer cyfleoedd dysgu ychwanegol (er enghraifft, prynhawn Dydd Mercher) a chydweithio â chwmnïau bysiau a thacsis i drefnu teithiau adref yn hwyrach yn y prynhawn fel bod pob dysgwyr yn gallu ymgysylltu'n deg. A all ysgolion gynnig clybiau rygbi, clybiau gwyddoniaeth, ymarfer côr, clybiau darllen ac ati ar ôl ysgol ar yr un noson, a cheisio ymestyn y diwrnod ysgol am un noson o'r wythnos?	Ystyried benthycu amser o'r egwyl ginio yn ystod yr wythnos, a neilltuo'r amser hwnnw i gynnig cyfleoedd cwricwlwm ychwanegol i ddysgwyr fel rhan o'r amserlen ar brynawn Dydd Gwener (dwyl wers olaf yr wythnos) gan ganolbwyntio ar les dysgwyr. Rhaid i bob cyfadran/athro gynnig clwb, neu gyfres o glybiau, y gall pobl ifanc eu mynychu. At hynny, gallai ysgolion ddefnyddio'r gymuned i wella'r cynnig (golff, marchogaeth, syrffio ac ati) i gynyddu cyfleoedd.	Staff ysgolion uwchradd i weithio'n agos ag ysgolion cynradd lleol a chynnig clybiau yn y gymuned ar ôl ysgol. Mae ysgolion cynradd yn gyffredinol wedi'u lleoli o fewn cymunedau mwy lleoli, a gallai pobl dan anfantais gerdded yno, gan oresgyn problemau trafnidiaeth posib. Ar y llaw arall, gallai staff ysgolion cynradd gynorthwyo gyda'r gweithgareddau mewn ysgolion prif ffrwd i hyrwyddo pontio effeithiol.

---

Beth ddylai ysgolion ei wneud:

- Ystyried arfer cyfredol a ffyrdd effeithiol o ehangu'r diwrnod ysgol, gan ddod â'r gymuned i mewn i'r adeilad, a chefnogi cyfleoedd dysgu ychwanegol i oedolion.
- Siarad â sefydliadau eraill a allai elwa o ddefnyddio adeilad yr ysgol yn fwy rheolaidd, i geisio lleihau'r bylchau o ran cyrhaeddiad a chyfleoedd (Gwasanaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gwasanaeth Ieuentid ac ati)
- Ceisio gweithio ochr yn ochr ag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd eraill o fewn y rhanbarth, gan anelu at sicrhau cymorth aml-asantiaeth effeithiol i bob dysgwr

---

## Anghydraddoldeb Rhanbarthol

Mae llawer o fanteision i fyw yng nghefn gwlad; fodd bynnag, o ran cynnig addysg deg, mi all fod yn rhwystr i gyfle teg. Mae cymunedau gwledig a threfi glan môr yn profi gwahanol fathau o amddifadedd ac anfantais o'u cymharu ag ardaloedd mwy poblog Cymru

Mae amddifadedd gwledig yn rhwystr i bob dysgwr waeth beth fo'i statws economaidd-gymdeithasol, a rhaid i ysgolion weithio'n greadigol i oresgyn heriau o'r fath. Mae amddifadedd gwledig yn waeth i deuluoedd incwm isel ac mae angen cymorth mwy ystyriol, strategol ac aml-asiantaeth i'w oresgyn. Er enghraifft, gall goblygiadau trafndiaeth i ddysgwyr sy'n mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol olygu llai o gyfleoedd i fanteisio ar gwricwlwm ehangach. Yn ogystal, mewn perthynas â dysgwyr yn cael mynediad wedi'i gynllunio at 'brofiad' gwell o fewn y Cwricwlwm i Gymru newydd, mae ysgolion yng Nghanolbarth Cymru'n cael llai o gyfleoedd, ac mae cysylltiadau trafndiaeth israddol yn gwneud hi'n anoddach cael mynediad at gyfleoedd o'r fath, fel y theatr a chanolfannau chwaraeon.

Gall cynnig cyfleoedd yn ddigidol wella mynediad i rai dysgwyr; fodd bynnag, mae hyn hefyd yn fwy o her yng nghefn gwlad Cymru. Er bod nifer y cartrefi sydd â'r rhyngwyd yn gymharol gyson â gweddill Cymru, mae cyflymder y cysylltedd yn dal i fod yn arafach. Mae hyn, ynghyd â materion rhanbarthol eraill (megis prisiau tai uchel, llai o gyfleoedd gwaith a chyflogau is) yn golygu bod angen i ysgolion ac asiantaethau eraill wneud ystyriaethau pellach wrth gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd.

### **Beth fyddwn ni'n ei wneud:**

- Cynorthwyo ysgolion i ddatblygu model ysgolion cymunedol yn benodol ar gyfer cymunedau gwledig
- Gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at faterion penodol a wynebir gan gymunedau gwledig

---

## **Beth ddylai ysgolion ei wneud:**

- Ystyried anghenion dysgwyr sydd dan yr anfantais fwyaf wrth wneud penderfyniadau
- Sicrhau nad yw amddifadedd gwledig yn rhwystro dysgwyr rhag cael mynediad llawn at addysg
- Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc (a'r gymuned ehangach, os oes modd) i ddefnyddio'r ysgol, gan weithio i oresgyn anghydraddoldebau rhanbarthol

DRAFT

## Gwerthusiad o arfer cyfredol:

	1 (Gwannach) sef		4 (Cryfach) sef	
<b>Disgrifiad:</b>	Ychydig iawn o ystyriaeth a roir i'r heriau ychwanegol a wynebir yn sgil byw yng nghefn gwlad Cymru.		Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth i'r heriau a wynebir yn sgil byw mewn ardal wledig wrth ymgysylltu â phobl ifanc, rhieni, gofalwyr, a'r gymuned ehangach.	
<b>Gwerthusiad</b>	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>
<b>Unrhyw sylwadau:</b>				
<b>Cwestiynau i'w hystyried:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I ba raddau y mae'r ysgol yn ystyried amddifadedd rhanbarthol wrth gydlynw gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol?</li> <li>• I ba raddau y mae'r ysgol yn ystyried rhwystrau i gyfleoedd a phrofiadau oherwydd amddifadedd rhanbarthol?</li> <li>• Pa mor greadigol yw'r ysgol o ran defnydd o dechnoleg i sicrhau mynediad teg a chyfartal at brofiadau?</li> <li>• A yw'r ysgol yn ystyried amddifadedd rhanbarthol wrth gydlynw gweithgareddau sy'n ceisio ymgysylltu â rhieni a rhanddeiliaid?</li> <li>• A oes yna gynrychiolaeth gymesur o ddysgwyr dan anfantais yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, tripiâu, a digwyddiadau a gynhelir tu allan i oriau ysgol?</li> </ul>			

## Gwerthusiad o arfer cyfredol:

Yr ysgol a'r Gymuned				
	1 (Gwannach) sef		4 (Cryfach) sef	
<b>Disgrifiad:</b>	Mae'r ysgol yn gweithredu heb ymgysylltu â'r gymuned ehangach. Does dim, neu fawr ddim defnydd ehangach o adeilad yr ysgol i gynnig cyfleoedd tu allan i oriau ysgol. Does fawr o gyfle na rhyddid i ddisgyblion a rhieni leisio barn, felly does fawr ddim newid ystyrllon.		Mae cysylltiad cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned, ac mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd dysgu ychwanegol i ddisgyblion a rhieni, ac yn caniatáu integreiddio gwasanaethau ehangach (iechyd, gwasanaeth ieuencid, gofal cymdeithasol ac ati). Ceir estyniad cyfoethog i'r diwrnod ysgol (neu gynnig dysgu ychwanegol). Mae lleisiau'r disgyblion a'r rhieni yn ddiagnostig ac yn arwain at newid pwrpasol.	
<b>Gwerthusiad</b>	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>
<b>Unrhyw sylwadau:</b>				
<b>Cwestiynau i'w hystyried:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• I ba raddau y caiff llais y rhiant ei glywed a'i werthfawrogi yn yr ysgol?</li> <li>• A yw rhieni yn ymgysylltu â dysgu eu plant ac yn y broses o gynllunio'r cwricwlwm?</li> <li>• A ydych chi'n cynnig rhaglenni dysgu fel teulu a chyfleoedd dysgu i oedolion?</li> <li>• A ydych chi'n ymgysylltu'n rheolaidd â gweithwyr ieuencid?</li> <li>• A yw'r ysgol yn cael ei defnyddio gan y gymuned ehangach i gynnal clybiau, darparu cyfleoedd dysgu ac ati?</li> <li>• A ydych chi wedi ystyried dyddiau ysgol estynedig a chyfoethog?</li> <li>• A ydych chi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i ddarparu cymorth cofleidiol?</li> <li>• Oes yna wasanaethau iechyd a llesiant, cymdeithasol ac addysgol cydnaws y gellir eu cydleoli?</li> </ul>			



---

## Cymorth ac Ymyrraeth

Mae'n anghywir tybio bod pawb yn elwa o'r un lefel o gymorth. Mae'n golygu trin pobl ifanc yn gyfartal, ac mae'n gweithio i gynnal unrhyw fwch mewn anghydbwysedd cymdeithasol, emosiynol neu academaidd yn unig. Rhaid i ysgolion weithio i sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cael cymorth ac ymyrraeth benodol sydd wedi'i dargedu yn ôl yr angen. Ar adegau, bydd hyn yn golygu bod rhai pobl ifanc yn elwa o fwy o gymorth nag eraill. Mae hon yn ysgol deg – lle mae pobl ifanc sydd angen mwy o gymorth yn derbyn y cymorth hwnnw, ar eu taith tuag at fywyd llewyrchus a llawn.

Gall dysgwyr o deuluoedd incwm isel fod dan anfantais o oedran cynnar. Mae astudiaethau wedi canfod y gall tangyflawni ymhlith plant yng Nghymru sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim fod yn broblem sylweddol o'r dosbarth meithrin ymlaen (Sefydliad Joseph Rowntree, 2013). Os na chynigir cymorth, gall y duedd hon barhau hyd at lefel TGAU. Canfu astudiaeth gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol (2021) bod plant sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim 28% yn llai tebygol o adael yr ysgol gyda 5 gradd TGAU A\*-C na'u cyfoedion cyfoethocach. Rhaid i ysgolion ddod i arfer â nodi bylchau cyrhaeddiad a llesiant yn gynnar, a gweithio'n strategol i oresgyn y problemau hyn. Dylid mynd ati i olrhain cyrhaeddiad a llesiant yn effeithiol er mwyn llunio cymorth ac ymyrraeth effeithiol.

Bydd arfer da yn golygu bod ysgolion nid yn unig yn cynnig cymorth ac ymyrraeth i ddysgwyr ond yn ystyried effaith ac effeithiolrwydd y cymorth hwnnw dros amser. Lle bo modd, bydd ysgolion yn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer mesur cynnydd ac yn adrodd yn rheolaidd ar unrhyw gynnydd a wneir. Dylai staff sy'n arwain ar gymorth ac ymyrraeth ddefnyddio ymchwil addysgol fel sail i'w cynlluniau ar gyfer gwella deilliannau dysgwyr.

### **Bydd Partneriaeth Canolbarth Cymru yn:**

- Sicrhau bod y tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynorthwyo ysgolion i ddarparu ymyrraeth gynnar effeithiol

- 
- Gweithio ochr yn ochr ag ysgolion i uwchraddio sgiliau staff er mwyn darparu ymyrraeth effeithiol
  - Cefnogi, olrhain a monitro gwariant effeithiol o arian grant i ddarparu cymorth ac ymyrraeth bwrpasol

### **Beth ddylai ysgolion ei wneud:**

- Olrhain a monitro effeitholrwydd cymorth ac ymyrraeth
- Sicrhau bod staff sy'n darparu cymorth ac ymyrraeth wedi derbyn hyfforddiant addas, eu bod yn cadw cofnodion cywir o'r effaith, a bod ganddynt amser digonol i baratoi ymyriadau effeithiol
- Codi ymwybyddiaeth o arferion ystafell ddosbarth effeithiol sy'n arwain at gyfleoedd dysgu teg ( er enghraifft: diymadferthwch a ddysgwyd , defnydd effeithiol o gynorthwyrwyr addysgu ac ati)

## Gwerthusiad o arfer cyfredol:

Cymorth ac Ymyrraeth				
	1 (Gwannach) sef		4 (Cryfach) sef	
<b>Disgrifiad:</b>	Mae staff yn cael cefnogaeth wael wrth ddarparu cymorth ac ymyrraeth. Nid yw cynnydd dysgwyr yn cael ei olrhain yn effeithiol a does fawr o dystiolaeth o'i effeithiolrwydd. Mae dysgwyr yn cael eu hystyried ar gyfer cymorth ychwanegol ar hap, ac nid yw barn yr unigolyn ifanc a'r rhieni/gofalwyr yn cael ei hystyried. Nid yw arfer yr ystafell ddosbarth yn cefnogi'r dysgwyr mwyaf difreintiedig yn effeithiol.		Mae tystiolaeth glir o gymorth ac ymyrraeth effeithiol, gyda'r dysgwyr yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae'r unigolyn ifanc, rhieni/gofalwyr a'r ysgol yn gweithio ar y cyd i sicrhau gwelliannau. Yn yr ystafell ddosbarth, mae athrawon yn cynorthwyo dysgwyr dan anfantais yn effeithiol, ac maent yn ymwybodol mai nhw, yn aml, sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth pwnc-benodol, ochr yn ochr â chynorthwywyr addysgu. Mae arfer da yn cael ei rannu ar draws yr ysgol.	
<b>Gwerthusiad</b>	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>4</b>
<b>Unrhyw sylwadau:</b>				
